Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/HID/0471/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

26 Tachwedd 2018

Annwyl Lynne,

Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Memorandwm Esboniadol Diwygiedig

Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) ar 18 Medi 2018. Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 2 ar 18 Hydref.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.27, mae Memorandwm Esboniadol diwygiedig wedi ei lunio, ac fe hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y newidiadau hynny a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n dod gyda'r Bil.

Dyma'r prif newidiadau o bwys i'r Memorandwm Esboniadol.

Adran 3 o'r Memorandwm Esboniadol – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
O dan y pennawd "Profi'r cynnig", rwyf wedi amlinellu'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â gweithredu'r cynnig yn gynnar. Rwyf hefyd wedi egluro'r rhesymau dros symud at fodel darparu gwahanol, ar sail adborth gan randdeiliaid yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Adran 4 o'r Memorandwm Esboniadol - Gwerthuso
Mae'r adran hon wedi ei diweddaru i adlewyrchu'r sesiwn friffio gyfrinachol a gafodd aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 24 Hydref ynghylch prif ganfyddiadau gwerthusiad y flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae'r newid hwn yn nodi bod disgwyl i adroddiad gwerthuso gael ei gyhoeddi ar 22 Tachwedd 2018, neu o gwmpas hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol - Ymgynghori

Mae paragraff 5.9 wedi ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu bod gwelliannau wedi cael eu cyflwyno yn ystod Cyfnod 2 o'r Bil ar ôl cael adborth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r gwelliannau hyn yn ceisio sicrhau bod y darpariaethau yn adran 4 o'r Bil mewn cysylltiad â darparu "gwybodaeth gymhwysol" i Weinidogion Cymru gan drydydd parti yn gyson.

Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Mae'r tabl wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r pwerau sydd yn y Bil fel y'i diwygiwyd ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru er mwyn cynnwys pumed opsiwn newydd. Mae hyn yn adlewyrchu dull partneriaeth ar gyfer gweithredu'r cynnig yn gynnar, a hwn yw'r opsiwn sylfaenol newydd ("gwneud dim"). Mae awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth - mae un awdurdod yn derbyn ac yn prosesu ceisiadau ar ran eraill ac yn gwneud y taliadau perthnasol. Mae hyn yn wahanol i'r opsiwn sylfaenol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan gyflwynwyd y Bil ym mis Ebrill 2018. Roedd hwnnw'n adlewyrchu'r sefyllfa lle'r oedd pob awdurdod lleol yn cynnal y broses lawn eu hunain, gan gynnwys asesu ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparwyr gofal plant. Rhagwelir y bydd y dull partneriaeth yn parhau am weddill y cyfnod gweithredu'n gynnar.

Mae adran newydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n edrych ar gostau, risgiau a manteision opsiwn pump.

Asesiadau o Effeithiau Penodol

Mae'r asesiadau effaith mewn perthynas â hawliau dynol, hawliau'r plentyn a'r Gymraeg wedi cael eu hadolygu a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn Cyfnod 3.

Nodiadau Esboniadol

Mae'r Nodiadau Esboniadol, sy'n dod gyda'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig, yn adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i'r Bil yn ystod Cyfnod 2. Mae'r nodiadau wedi eu diwygio mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sef bod angen i'r Nodiadau Esboniadol egluro bwriad ac effaith y geiriau "rhoi disgresiwn i unrhyw berson".

Hefyd, mae amserlen y Bil wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r amserlen a osodwyd gan y Pwyllgor Busnes.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care